

# Llaneurgain - Mr Pwy a Wyr 348/1

Buaswn yn tybio bod y cyfansoddwr hwn yn aelod o fand prês ac yn hoff o'r sain traddodiadol 'band prês'.

Mae yma ddefnydd cryf o themâu; mae'r brif thema a gyflwynir ar ddechrau y darn yn cael ei ail adrodd yn dda drwy'r darn. Braff yw gweld dy fod hyd yn oed wedi cynnwys y brif thema yn y *trio*. Da iawn i weld llais cyfansoddi ifanc gyda'r math hwn o weledigaeth a gafael ar rhywbeth sydd yn anodd iawn i sawl cyfansoddwr proffesiynol - sef strwythur a ffurf.

Mae'r darn yn un da, ond mae'n eithaf amlwg lle mae ffocws yr ysgrifennu, sef ar y ffurf a'r arddull traddodiadol hwn. Dwi'n teimlo y gellid wedi bod yn fwy mentrus gyda'r ieithwedd harmonig sydd wedi cael ei defnyddio. Ystyria roi ychydig o newidiadau cyweirnod neu amsernod i mewn i'r darnau er mwyn arbrofi gyda sut mae'r swm a'r teimlad yn gallu cael ei newid; o bosib na fyddi eisiau cadw'r newidiadau yma i gyd ond mae'n ffordd dda o wthio dy hun a chreu *llais* unigryw i dy hun. Er dweud hyn, mae'n ddarn sydd yn dangos addewid mawr o ran dawn gyfansoddi.

Hoffwn gwestiynu'r nodyn "**one**" ym mar 16 gan ei fod wedi ei ysgrifennu ar linell *solo cornet*. Byddai hi werth esbonio hyn yn well ar ddechrau'r darn efallai.

Ystyria gynyddu'r gerddorfaeth ei hun i greu *crescendo* yn hytrach na dim ond ei ysgrifennu i mewn o dan yr offerynnau sydd yn chwarae e.e. bar 47-49, gallai y p < f gael ei gyfleu yn well drwy ddod a'r trombones i mewn i atgyfnerthu y *crescendo*. Ar y pwynt hyn hefyd, cofia nad yw pawb yn gorfod chwarae o hyd er mai ymdeithgan yw hi. Mae tynnu ychydig o offerynnau allan yn gallu creu gwrthgyferbyniad effeithiol iawn pan y byddi yn dod a nhw yn ôl i mewn, ac yn gwneud y darn yn haws i wrando arno.

Er dy fod yn debygol o fod yn aelod o fand pres, teimlaf dy fod wedi anghofio am yr agwedd *ddynol* ar adegau. Hynny yw, mi fydd pobl yn gorfod chwarae dy waith ac felly mae'n bwysig sicrhau nad yw'n gofyn gormod o ran anadlu er enghraifft. Mae gen ti frawddegau hir iawn ar adegau yn enwedig yn y rhannau cyfeiliol. Cofia hefyd mewn band prês fod gen ti lawer o ffyrdd i ychwanegu gwead gwahannol, er enghraifft gyda *mutes*.

Yn y dyfodol, cofia mai yng nghywair C dylid cyflwyno sgôr ar gyfer arweinydd neu gystadleuaeth; mae hyn yn ei gwneud yn haws i'w darllen ac yn arbed gorfod trawsgyweirio wrth ddarllen. Er nad yn ofynnol i'r gystadleuaeth yma, byddai cael CD i wrando arno wedi bod yn gymorth mawr yn enwedig gan ei fod yn waith hawdd i'w gynhyrchu oherwydd natur y meddalwedd sydd yn cael ei ddefnyddio i gyfansoddi.

Dal ati i gyfansoddi, mae potensial mawr yma.

## Drygioni Dyn - Godre'r Bryn 348/2

Fel darn o gerddoriaeth, mae'n ddigon dymunol, dangosir tipyn o ddychymyg yma er fod y darn yn defnyddio cyn lleied o offerynnau, dwi'n arbennig yn hoff o'r defnydd o rhyddmau ostinato i rhoi teimlad i'r darn.

Mae sawl un o'r brawddegau yn hir; cofia roi ystyriaeth i anghenion y chwaraewyr- mae'n rhwydd anghofio am hyn pan yn cyfansoddi ar dy ben dy hun. Ystyria fynd â dy waith at fand pres a gofyn iddyn nhw am adborth o ran y gallu i chwarae'r darn, gwelliannau ysgrifennu ayyb; mae'r bobl sydd yn chwarae yn aml yn gallu bod yn help mawr i ddatrys problemau pan yn cyfansoddi. Er enghraifft, rhwng bariau 38 a 49, mae'r *bas* yn chwarae yn ddi stop yn ogystal â gorfod ymateb i acenion ar y nodau tra'n chwarae yn *fortissimo*; o bosib byddai'r chwaraewr yn dweud wrthyt bod hyn yn anymarferol, yn enwedig i ensemble fechan fel yr un yn y darn hwn.

Mae'n amlwg wrth ddarllen y gwaith dy fod wedi rhoi ystyriaeth lawn iddo cyn ysgrifennu a dy fod yn mwynhau y broses o gyfansoddi. Dal ati i wneud hyn a gwrando ar gerddoriaeth gan gyfansoddwyr eraill er mwyn cael dy ysbrydoli ac adeiladu llais dy hun.

Teimlaf ar adegau fod y cyfansoddiad braidd yn 'ddiogel'. Ceisia arbrofi gyda chordiau ac amsernodau; mae'r newidiadau hyn yn gallu bod yn effeithiol iawn mewn band pres.

Darn da sydd yn dangos llawer o addewid wrth y cyfansoddwr, dal ati i gyfansoddi.

## Contentezza - Nodau'r Felin 348/6

Dwi'n tybio mai llais ifanc sydd yma, ac mae'n braf iawn gweld ymgais gan rywun ar gychwyn y daith o gyfansoddi. Mae yma ddefnydd da o gordiau diddorol a dilyniannau cordiol pleserus i wrando arnynt. Mae'n amlwg fod y cyfansoddwr yn mwynhau arbrofi. Teimlaf serch hynny byddai o fudd i'r cyfansoddwr arddangos gwell dealltwriaeth o'r offerynnau a ddefnyddiwyd er mwyn sicrhau bod yr alawon yn medru cael ei chwarae.

Ceisio roi ystyriaeth i'r alaw gan feddwl am y strwythur cyn dechrau cyfansoddi. Teimlaf y gellid roi mwy o sylw i'r dilyniant harmonig ac i strwythur yr alaw er mwyn gwneud darn fel hyn yn fwy effeithiol. Mae'n siwr dy fod yn falch o'r sain sydd yn cael ei greu gan y cyfrifiadur, ond mae'n rhaid cofio am y chwaraewyr wrth ysgrifennu. Er enghraifft, mae'r cyfeiliant braidd yn ail-adroddus ac ar adegau yn anodd iawn i chwarae fel y gwelir ym mariau 46-50 ac ym mariau 56-57 lle mae llawer o neidiadau.

Dal ati i gyfansoddi a dwi'n siwr y gwnei di ddarganfod dy draed fel petai. Gwrandda ar gerddoriaeth gan gyfansoddwyr eraill, darllen eu sgôrau a cheisia ddefnyddio yr egwyddorion yr wyt yn eu hoffi o'r cyfansoddiadau hyn yn dy waith dy hun.

## Dienw - Casi Garlan 348/7

Mae gan y darn sain ddymunol gyda alaw hiraethus a diddorol. Mae'r arddull yn eithaf tebyg i gân bop. Dwi'n hoff o'r defnydd o *Pizz* yn y llinynnau, mi fyddai wedi bod yn dda i weld sgôr i ddeall yn union nifer y chwaraewyr ayyb. ond tybiaf mai pedwarawd llinynnol gyda chyfeiliant piano sydd yma. Er nad yw'n ofynnol yn y gystadleuaeth yma, byddai derbyn sgôr o'r gwaith yn ogystal â CD yn fuddiol, yn enwedig gan fod y gwaith yn amlwg wedi ei gyfansoddi ar feddalwedd modern. Byddai hyn yn caniatáu rhoi gwell syniad am natur yr ensemble e.e. nifer y chwaraewyr, offerynnau ayyb.

Dwi'n hoff o'r defnydd o gwestiwn ac ateb rhwng y gwahanol leisiau yn y rhan gyntaf, ac mae'r cyfeiliant yn gweddu yn dda i'r alawon. Mae'r rhan ganol rhwng 1 munud a 2 funud yn dro eithaf annisgwyl yn y darn gan bod yr arddull yma yn dra gwahanol i'r rhan agoriadol. Dwi ddim yn siwr os ydyw'n gwbl effeithiol yn yr achos yma, ond dal ati i arbrofi gyda synnau gwahanol. Pan yn symud yn ôl i ail ddyfodiad y rhan gyntaf, mae'r trawsnewid yn gweithio yn dda iawn gyda'r alaw yn treiddio drwy'r sain.

Teimlaf fod y gwaith yn un da, ond braidd yn anorffenedig. Mae'r syniadau a gynigir yn rai effeithiol ac yn rai sydd yn aros yn y cof gan gynnwys y motif bach naw cwafer sydd yn ailadrodd drwy'r darn. Anffodus yw'r ffaith fod y darn yn gorffen mor sydyn, ond fe ddaw y gallu i greu diweddglo addas gydag amser. Dal ati i weithio ar dy grefft.

## Cân y Mynyddoedd - Sarn Gwydion 348/4

Mae'r darn yn cychwyn yn syml iawn gydag alaw bleserus i'r *Tenor Horn* ac *Euphonium* sydd yn ail-adrodd tipyn drwy'r darn. Hyfryd gweld dyfeisgarwch cordiawl ym mariaau 49-54; braf i weld cyfansoddwr yn meddwl tu allan i'r blwch traddodiadol 'cywir' fel petai.

Trueni yw gweld y darn yn dychwelyd i'r union ffordd y cychwynodd; byddai wedi bod yn braf gweld ychydig mwy o'r ddyfeisgarwch a welwyd yng nghynt wrth ail ymweld â syniadau yn yr adran olaf. Mi allai ymdriniaeth wahanol o'r adran hyn wedi dyrchafu'r holl ddarn. Er dweud hyn i gyd, mae'n dda gen i weld cyfansoddwr ifanc yn deall pwysigrwydd ffurf, mae hyn yn rhoi sylfaen gadarn i'r darn ac yn caniatáu iddo sefyll ar ei draed ei hun fel petai.

Ceisio edrych ar ddarnau gan gyfansoddwyr eraill i weld sut mae nodi pethau ar sgôr ychydig yn well, ystyria sut maent yn nodi arpeggio er enghraifft.

Ymdrech dda iawn.

## Gardd Siapan - Cadi Heulwen 348/3

Ensemble ddiddorol iawn. Mae'n amlwg fod y cyfansoddwr wedi rhoi llawer o feddwl i sain y darn; mae'r ensemble yn cyfleu y testun yn dda iawn.

Mae'r cyflwyniad yn addawol iawn, gan rhoi y ddau fodd yn y piano i'w sefydlu fel sail y darn. Mi fyddai wedi bod yn braf gweld yr ensemble gyfan yn gosod y moddau sydd wedi eu defnyddio yn lle gadael y gwaith i'r piano yn unig. Pe buaset wedi cynnwys y ffliwt a'r vibraphone yn y cyflwyniad, gallai wedi bod tua dwy waith yn hirach, a fyddai wedi adeiladu yr atmosffêr yn well.

Mae'n dda gweld y ddau fodd yn cael eu ailadrodd drwy'r darn, a gweld eu bod yn cael eu trawsgyweirio a'u newid yn gelfydd iawn. Teimlaf dy fod wedi creu awyrgylch siapaneaidd da iawn. Rwyf wedi canolbwyntio llawer yn y darn hwn ar wrthbwynt sydd yn rhywbeth anodd i'w feistrolï; mae'n creu dyfnder a gwead da iawn i'r darn. Y trueni mawr yn y darn yw nad oes strwythur i'w gael ynddo, mae'n tueddi llifo o un adran i'r llall heb fawr o ddolen gyswllt arwahan i'r ddau fodd. Mae'r syniadau yn rhai da iawn, ond ceisia ddefnyddio llai ohonyn nhw ac yn hytrach eu datblygu nhw fwy yn y dyfodol.

Roeddwn yn siomedig (am fy mod yn mwynhau y darn) i'w weld yn gorffen mor sydyn. Teimlaf y gallet fod wedi gwneud mwy o ymdrech i blethu adrannau gyda'i gilydd a chreu diweddeb addas yn hytrach nag un sydyn. Buaswn yn argymhell yn gryf i ti ail-ymweld â'r darn i'w werthuso; pethau fel rhoi dymameg i'r vibraphone ayyb.

Braf iawn gweld rhywun yn defnyddio iaith harmonig sydd ddim yn draddodiadol i greu awyrgylch cofiadwy. Diolch am dy ymgais.

## Dienw - Bendigeidfran 348/5

Darn diddorol iawn i gerddorfa linyddol a gawn yma. Mae'r agoriad yn addawol iawn gyda llawer o gyfathrebu rhwng y lleisiau gwahanol sydd yn creu diddordeb ac awyrgylch. Mae'r sain yn rywbeth na fyddai allan o le mewn ffilm neu raglen deledu. Mae yma ddilyniant diddorol o gordiau. Dwi'n arbennig yn hoff o'r dilyniant cordiau sydd ddim yn gadael pob cord yn y *root position*-effeithiol iawn.

Mae yma ymdrech deg ar greu gwead ddiddorol; mae'r cyd-ganu rhwng y lleisiau yn effeithiol iawn. Tybed a ellir bod wedi cynnig yr alaw i fwy o'r offerynnau, efallai fod y Viola yn ran diflas ar adegau oherwydd hyn. Mae'n drueni gweld yr adran newydd ym mar 28 yn dod cyn i'r adran gyntaf gael ei datblygu yn llwyr. E bod yr ysgrifennu yn aeddfed, buaswn wedi hoffi gweld ychydig mwy o ddatblygu syniadau- rhywbeth i wella yn y dyfodol dwi'n siwr. Er dweud fod yr adran yn dod yn rhy gynnar, mae'r ddolen gyswllt a welir ym mariaau 24-27 yn effeithiol iawn yn arwain mewn i'r adran newydd.

Yn yr achos hwn, fel gyda unrhyw ddarn, byddai cael mwy o wybodaeth am gymhellant y darn wedi bod yn gymorth i weld os yw'r awyrgylch sydd yn cael ei greu yn addas. Buasai rhoi teitl addas i'r darn er enghraifft yn syniad da. Mae llawer o'r cordiau yn yr adran gyntaf yn cael eu atal yn hir a'u adfer mewn ffyrdd anarferol. Mae'n bosib mai dyma oedd bwriad y cyfansoddwr, ond heb wybod hanes y darn mae'n anodd gwybod hyn yn bendant. Braff, serch hynny, yw gweld dyfeisgarwch.

Pan ail-adroddir yr adran gyntaf ym mar 40, byddai wedi bod yn dda gweld ychydig o ddatblygiad yn y syniadau, efallai drwy newid y gerddorfaeth neu amseriad ambell rhan, ond mae'n dda gweld ffurf da ar y darn.

Gwaith da iawn, yn dangos addewid cyfansoddwr ifanc. Dal ati i ddatblygu dy iaith harmonig, a datblygu dy syniadau.

## Rondo yn A Fwyaf - Blodyn Glas 348/8

Mae'r darn hwn wedi ei ysgrifennu mewn iaith harmonic clasurol iawn ei naws sydd yn ddigon pleserus i wrando iddo. Yn anffodus teimlaf nad oes yma lawer o syniadau gwreiddiol, ac felly yn bersonol, braidd yn *ddiogel* gwelaf i y darn hwn.

Cymer ofal pan yn rhoi marciau megis acenion ar ben nodau mewn sgôr- mae cynildeb yn talu ffordd yn yr agwedd hon. Mae sawl peth y gellir gwneud i rhoi acen neu bwyslais ar adran.

Mae'r sain ac awyrgylch yn dda, ond teimlaf fod y darn braidd yn anorffenedig. Buaswn wedi hoffi gweld y fiola yn rhan o'r ensemble er enghraifft, ac efallai defnydd mwy o'r offeryniaeth lawn yn enwedig mewn andran fel 39-46 lle byddai llenwi'r gerddorfaeth wedi newid y teimlad yn llwyr.